

THOMAS, DAVID (1880 - 1967), addysgwr, awdur ac arloeswr y Blaid Lafur yng ngogledd Cymru

Enw: David Thomas
Dyddiad geni: 1880
Dyddiad marw: 1967
Priod: Elizabeth Ann Thomas (née Williams)
Plentyn: Ffion Mai Jones (née Thomas)
Rhiant: Elizabeth Thomas (née Jones)
Rhiant: David Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: addysgwr, awdur ac arloeswr y Blaid Lafur yng ngogledd Cymru
Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd 16 Gorffennaf 1880 yn fab i David Thomas a'i briod Elizabeth (ganwyd Jones), Quarry Cottage, Llanfechain, Trefaldwyn. Addysgwyd ef yn ysgolion Llanfechain a Llanfyllin gyda thymor yn ysgol ramadeg Croesoswallt cyn dechrau gweithio mewn siop ddillad yn Llanfyllin. Cyn hir aeth yn ddisgybl-athro (1895-99) yn yr ysgol Frytanaidd yno, a chael swydd athro didrwydded ym Mhen-sarn, ger Amlwch, Pen-y-bont ar Ogwr, a Walton-on-Thames. Manteisiodd ar y cyfle i fynychu dosbarth yn Llundain ar y Sadyrnau i'w baratoi ei hun ar gyfer arholiad i ennill tystysgrif athro. Bu'n dysgu wedyn yn Cradley; Rhostryfan (1905-09); Tal-y-sarn, Sir Gaernarfon (1909-20); ac Ysgol Ganolraddol Bangor (1922-45). Ac yntau'n wrthwynebwyr cydwybodol, bu'n gweithio ar fferm ger Wrecsam yn ystod Rhyfel Byd I a threuliodd gyfnod byr (1920-22) yn ysgrifennydd Cyngor Llafur Gogledd Cymru, pryd yr ymgartrefodd yng nghyffiniau'r Drennewydd.

Wedi dychwelyd i Gymru, gweithiodd yn egniol i ffurfio undebau llafur a changhennau o'r Blaid Lafur Annibynnol yng ngogledd Cymru, gan gynorthwyo i sefydlu Cyngor Llafur sir Gaernarfon yn 1912 a Chyngor Llafur Gogledd Cymru yn 1914 (bu'n ysgrifennydd iddo am gyfnod). Cymerodd ran flaenllaw mewn dadl ar Sosialaeth yn *Yr Herald Cymraeg* yn 1908 ac yn dilyn hynny cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf, *Y werin a'i theyrnas* (1910), a ddylanwadodd ar nifer o undebwyr a Llafurwyr Cymru. Cymerodd ddiddordeb mawr mewn addysg pobl mewn oed. Bu'n athro ar ddosbarthiadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn Sir Gaernarfon am gyfnod hir (1928-59), a daliodd gysylltiad swyddogol â'r gymdeithas hyd ei farwolaeth. Yn 1944 cychwynnodd **Lleufer**, cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y bu'n ei olygu hyd 1965. Cafodd radd M.A. am draethawd ar 'A study of a rural and maritime community in the nineteenth century, with special reference to the relation between agriculture and shipping' (Lerpwl, 1928), ac M.A. er anrhydedd Prifysgol Cymru yn 1960.

Yr oedd yn areithydd a darlledydd radio effeithiol iawn ac ysgrifennodd lawer, yn erthyglau, pamffledi a llyfrau, ar bynciau amrywiol, gan gynnwys: *Y Blaid Lafur a dinasyddiaeth y gweithiwr* (1912), *Y Cynganeddion Cymreig* (1923), *Y ddinasyddiaeth fawr* (1938), *Hen longau a llongwyr Cymru* (1949), *Cau'r tiroedd comin* (1952), *Llafur a senedd i Gymru; ysgrifau, llythyrau a sgysiau* (1954), cofiant *Silyn (Robert Silyn Roberts) 1871-1930* (1956), *Ann Griffiths a'i theulu* (1963); a cholofn 'Glendid iaith' yn *Y Faner* (c. 1957-62). Cyflwynwyd iddo gyfrol **Ben Bowen Thomas** (gol.), *Lleufer y werin; cyfrol deyrnged i David Thomas, MA* (1965), a chyhoeddwyd wedi ei farwolaeth ei hunangofiant, *Diolch am gael byw* (1968). Cedwir rhai o'i bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Priododd, 26 Gorffennaf 1919, ag Elizabeth Ann Williams, New Broughton (bu farw 1955 ar ôl gwaelledd maith) a bu iddynt fab a merch. Bu farw yng nghartref ei ferch, gweddw **Herman Jones**, yn 2 Pen-y-bryn, Burry Port, Sir Gaerfyrddin ar 27 Mehefin 1967.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Ei hunangofiant

D. Ben Rees, *Cymry adnabyddus, 1952-1972* (Lerpwl 1978) (1978)

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 31393344

Wikidata: Q20804684

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

